Public Document Pack

# Y Pwyllgor Busnes

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 4 - Ty Hywel** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>National Assembly for Wales |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 25 Mai 2011** | |
| Amser: | **08:30** | |

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Peter Black**<br>**Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Nick Ramsay** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Marion Stapleton, Llywodraeth Cymru**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Penderfynodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(ix).

## 2 Y Pwyllgor Busnes

2(i) Y Pwyllgor Busnes – Ffyrdd o Weithio

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried ei ffyrdd o weithio a chytunodd ar yr hyn a ganlyn:

- i gyfarfod am 08.30 ar ddydd Mawrth yn ystod y tymor;

- i gyfarfod yn breifat drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(ix) a chyfarfod â'r cyhoedd ar sail ad hoc i drafod materion trefniadol; ac

- i gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd preifat yn Saesneg ac yn Gymraeg o fewn wythnos iddynt gael eu cytuno gan y Pwyllgor.

## 3 Trefn Busnes

3(i) Amserlen y Cynulliad

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyhoeddi amserlen dros dro ar gyfer busnes y Cynulliad yn amlinellu:

- yr amser sydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd grwpiau plaid;

- dyddiadau'r toriadau sydd wedi'u **cadarnhau**, fel a ganlyn:

  - Sulgwyn – Dydd Llun 30 Mai – Dydd Sul 5 Mehefin 2011
  - Haf – Dydd Llun 18 Gorffennaf – Dydd Sul 18 Medi 2011
  - Hydref – Dydd Llun 24 Hydref – Dydd Sul 30 Hydref 2011

- dyddiadau'r toriadau **arfaethedig** a ganlyn:

  - Nadolig – Dydd Llun 12 Rhagfyr 2011 – Dydd Sul 8 Ionawr 2012
  - Gwanwyn – Dydd Llun 13 Chwefror – Dydd Sul 19 Chwefror 2012

- dyddiadau ar gyfer cwestiynau llafar.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r amseroedd ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau'r Cynulliad yn cael eu cyhoeddi pan gaiff system y pwyllgorau ei chytuno.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymgynghori â'r grwpiau plaid ar:

- ddyraniad amser rhwng busnes y Llywodraeth a busnes y Cynulliad; a'r

- cynigion ar gyfer sut y caiff amser y Cynulliad ei ddefnyddio.

3(ii) Busnes yr wythnos hon

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno cynnig i benodi Comisiwn y Cynulliad i'w ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai amser pleidleisio ddydd Mercher ddigwydd ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

3(iii) Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor amserlen fusnes y Llywodraeth ar gyfer y 3 wythnos nesaf.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Cyfarfod Llawn ddechrau am 09.30 ddydd Mercher 8 Mehefin 2011 oherwydd amgylchiadau eithriadol.

3(iv) Busnes y Cynulliad am weddill y tymor

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai Dadleuon Byr gael eu cynnal rhwng 14 Mehefin a diwedd y tymor, ac y dylai balot gael ei gynnal i ddewis enwau'r Aelodau a all gyflwyno testunau i'w trafod tan ddiwedd Mehefin. Caiff dyddiadau'r Dadleuon Byr eu penderfynu gan y Pwyllgor Busnes ar 8 Mehefin.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i roi ystyriaeth pellach i sut y bydd amser y Cynulliad yn cael ei ddefnyddio am weddill y tymor ar 8 Mehefin.

## 4 Pwyllgorau

4(i) Sefydlu'r pwyllgorau a'u cylch gwaith

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur yn amlinellu opsiynau cychwynnol ar gyfer sefydlu system bwyllgorau y Pedwerydd Cynulliad, i'w thrafod ymhellach â'r grwpiau plaid. Caiff y papur ei drafod eto ar 14 Mehefin.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes mewn egwyddor y dylai pwyllgorau i drafod deisebau ac is-ddeddfwriaeth gael eu sefydlu cyn gynted â phosibl, a gofynnodd am ragor o wybodaeth am gylchoedd gwaith ac aelodaeth posibl erbyn y cyfarfod ar 8 Mehefin. Bydd y system bwyllgorau yn ei chyfanrwydd yn cael ei hystyried yn y cyfarfod ar 14 Mehefin.

## 5 Deddfwriaeth

5(i) Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: y Mesur Seneddol ynghylch Addysg

5(ii) Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: y Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried dau bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar gyfer gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil Seneddol ynghylch Addysg a'r Bil Seneddol ynghylch Lleoleiddio. Oherwydd nid oes unrhyw bwyllgorau wedi cael eu sefydlu i ystyried y memoranda hyn, cytunodd y Pwyllgor Busnes, o dan Reol Sefydlog 29.4, na ddylent gael eu cyfeirio at bwyllgorau i gael eu hystyried, felly byddant yn cael eu cyflwyno i'w trafod yn y Cyfarfod Llawn.

5(iii) Y trefniadau ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth

Nododd y Pwyllgor Busnes bapur mewn perthynas â nifer o Offerynnau Statudol a gyflwynwyd yn nyddiau olaf y Trydydd Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor i ddosbarthu adroddiad arbennig ar rinweddau gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol blaenorol ymhlith Aelodau'r Cynulliad i dynnu eu sylw at yr Offerynnau Statudol hyn.

## 6 Busnes arall

6(i) Cwestiynau llafar y Cynulliad: y weithdrefn ar gyfer cynnal balot

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar drefn newydd ar gyfer cyflwyno cwestiynau llafar i adlewyrchu newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, lle bydd y Llywydd yn gyntaf yn cynnal balot i ddewis enwau'r Aelodau a fydd wedyn yn cael cyflwyno cwestiynau llafar. Cytunodd y Pwyllgor i adolygu'r broses ar ddiwedd tymor yr haf.

6(ii) Cynnig i benodi Comisiwn y Cynulliad

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno cynnig i benodi Comisiynwyr y Cynulliad, i'w gytuno gan y Cynulliad ddydd Mercher.

6(iii) Y cyfarfod nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnal y cyfarfod nesaf am 08.30 ar 8 Mehefin.